



## Pecyn Swydd : Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu

Rydym yn chwilio am unigolyn brwdfrydig a phrofiadol i ymuno a'n tîm bychan, ymroddedig ar gychwyn y bennod nesaf yn ein hanes, ac wrth inni baratoi ar gyfer rhaglen newydd o waith beiddgar ac uchelgeisiol. Dyma gyfle i wneud cyfraniad o bwys wrth inni greu profiadau theatr amrywiol o'r radd flaenaf yn y Gymraeg. Byddwch yn arwain holl weithgaredd marchnata a chyfathrebu'r cwmni, gan gynnwys llunio a rheoli ymgyrchoedd hyrwyddo ein cynyrchiadau.

### Y Cwmni a'i Waith:

Theatr Genedlaethol Cymru yw'r cwmni theatr cenedlaethol iaith Gymraeg. Rydym yn creu profiadau theatr beiddgar, uchelgeisiol, cynhwysol a chofiadwy wrth galon ein cymunedau mewn canolfannau theatr traddodiadol a lleoliadau annisgwyl ledled Cymru a thu hwnt.

Mae uchafbwyntiau diweddar y cwmni yn cynnwys: **Nyrsys**, drama boblogaidd, newydd wedi'i lunio o gyfweiliadau â nyrsys go iawn; **Estron**, gan Hefin Robinson, enillydd y Fedal Ddrama yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Fynwy a'r Cyffiniau 2016; **Y Tad** – cyfieithiad poblogaidd Geraint Løvgreen o'r ddrama arobryn Ffrengig *Le Père*; **Holli**, drama gair am air newydd a beiddgar oedd yn ymateb i gynlluniau i adeiladu atomfa newydd ar Ynys Môn; **Y Tŵr**, opera gyfoes ar y cyd â Music Theatre Wales; *Macbeth*, cynhyrchiad safle benodol yng Nghastell Caerffili a'r fenter newydd **Theatr Gen Byw**, oedd yn cynnwys darllediad byw o **Macbeth** i 11 o ganolfannau ar draws Cymru; **Merch yr Eog / Merc'h an Eog**, drama mewn tair iaith a deithiodd Cymru, de-orllewin Lloegr a Llydaw, ar y cyd â Teatr Piba o Lydaw; **Mrs Reynolds a'r Cena Bach**, cyfieithiad newydd gan Meic Povey o ddrama Gary Owen, *Mrs Reynolds and the Ruffian*; **Chwalfa**, oedd yn cynnwys dros 50 o gast cymunedol ar lwyfan Theatr Bryn Terfel, Pontio, ac a enillodd y wobr am y Cynhyrchiad Gorau yn y Gymraeg yng ngwobrau Theatr Cymru 2016; **Dawns Ysbrydion** gydag Eddie Ladd oedd yn nodi 50 mlynedd ers agor argae Tryweryn a **Nansi**, drama newydd yn dathlu bywyd y delynores hudolus Nansi Richards.

Mae'r cwmni – a leolir yng Nghaerfyrddin – hefyd yn cynnig gweithdai a rhaglen gynhwysfawr o waith gyda grwpiau cymunedol, ac yn darparu adnoddau ar gyfer y sector theatr yng Nghymru.



# Theatr Genedlaethol Cymru

## Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu

(Marketing and Communications Manager)

TEITL Y SWYDD:	Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu
YN ATEBOL I:	Cyfarwyddwr Gweithredol
PWRPAS Y SWYDD:	Rheoli, datblygu a gweithredu strategaeth farchnata a chyfathrebu'r cwmni, a datblygu a gweithredu strategaeth ddatblygu cynulleidfa'r cwmni (mewn cydweithrediad â'r Cynhyrchydd Gweithredol)
CYFLOG:	£28,000-£30,000 y flwyddyn yn ddibynnol ar brofiad a chymwysterau
HYD AC ORIAU'R SWYDD:	Llawr Amser – 37.5 awr yr wythnos (oriau hyblyg i'w cytuno) Swydd barhaol (wedi cwblhau cyfnod prawf 6 mis)
GWYLIAU:	25 diwrnod, y flwyddyn + gwyliau statudol.
LLEOLIAD:	Y Llwyfan, Caerfyrddin, ond gyda'r disgwyliad y bydd y swydd yn cynnwys teithio ledled Cymru a thu hwnt.
DYDDIAU CAU:	Dydd Mawrth 22ain o Ionawr 2018 14:00

Dylid dychwelyd eich ffurflen gais i: [swyddi@theatr.com](mailto:swyddi@theatr.com) neu

**Theatr Genedlaethol Cymru, Y Llwyfan, Heol y Coleg, Caerfyrddin. SA31 3EQ**

## Theatr Genedlaethol Cymru

### Disgrifiad Swydd: Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu

#### Prif Ddiben y Swydd:

Rheoli, datblygu a gweithredu strategaeth farchnata a chyfathrebu'r cwmni, a datblygu a gweithredu strategaeth ddatblygu cynulleidfa'r cwmni (mewn cydweithrediad â'r Cynhyrchydd Gweithredol).

#### Yn adrodd i'r

Cyfarwyddwr Gweithredol

#### Cyfrifoldebau Rheoli Llinell

Yn gweithredu fel rheolwr llinell ar y Swyddgog Marchnata ac ar gynorthwywyr marchnata achlysurol ar brosiectau penodol yn ôl y galw.

#### Gweithio i ThGC

Mae gan bob aelod o staff Theatr Genedlaethol Cymru rôl sylweddol i'w chwarae er mwyn cyflawni nodau'r Cwmni. Mae'r staff i gyd yn hyrwyddwyr ar gyfer gwaith ac ethos y cwmni ac anogir staff y Cwmni i fynd i weld gwaith, datblygu rhwydweithiau a chysylltiadau, cyflwyno artistiaid newydd ac aelodau o'r gymuned i Theatr Genedlaethol Cymru ac i helpu i ddatblygu syniadau creadigol a chyfranogol ar gyfer y dyfodol. Mae presenoldeb yn ystod cyfarfodydd y Cwmni yn rhan werthfawr o swydd pawb. Y tu hwnt i dasgau penodol pob disgrifiad swydd, mae'r gweithgareddau hyn ledled y Cwmni yn rhan allweddol o gyfraniad a llwyddiant pob aelod o staff.

#### Tasgau Allweddol

- **Marchnata a Chyfathrebu:** Rheoli, datblygu a gweithredu strategaeth farchnata a chyfathrebu'r cwmni.
- **Datblygu Cynulleidfa:** Datblygu a gweithredu strategaeth ddatblygu cynulleidfa'r cwmni (mewn cydweithrediad â'r Cynhyrchydd Gweithredol)
- **Codi Arian:** Cydweithio gyda'r tîm rheoli i sicrhau fod y cwmni yn manteisio ar y cyfleodd i greu incwm ychwanegol drwy gyhoeddiadau a nwyddau, adnoddau'r cwmni a cheisiadau am nawdd.

#### Marchnata a Chyfathrebu

Rheoli, datblygu a gweithredu strategaeth farchnata a chyfathrebu'r cwmni.

- Bod yn gyfrifol am ddatblygu strategaeth farchnata a chyfathrebu'r cwmni, gyda'r nod o ehangu ymwybyddiaeth o'r cwmni a'i waith yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.
- Llunio a rheoli ymgyrchoedd marchnata ar gyfer holl gynyrchiadau'r cwmni.
- Adrodd yn ôl yn rheolaidd i'r Cyfarwyddwr Gweithredol (a'r Cyfarwyddwr Artistig yn ôl y galw) ar ddatblygiad ymgyrchoedd marchnata prosiectau a chyfathrebu'r cwmni a chynnig argymhellion ar gamau pellach o ran datblygu strategaeth y cwmni.
- Llunio adroddiadau rheolaidd ar weithgaredd marchnata a chyfathrebu'r cwmni, ynghyd ag adroddiadau cynnydd, ar gyfer Bwrdd Ymddiriedolwyr y cwmni.
- Sicrhau proffil uchel i waith y cwmni ym mhob cyfrwng; cyfathrebu'r rhychwant eang o weithgareddau'r cwmni; ac ymgysylltu yn ystyrlon ac arloesol gyda'r gynulleidfa.
- Sefydlu a datblygu partneriaethau creadigol gyda dylunwyr, cwmnïau creadigol ac

asiantaethau digidol, gyda golwg at ddatblygu a chryfhau brand a deunydd marchnata'r cwmni i'r dyfodol.
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Comisiynu a gofalu am holl waith print y cwmni, gan gynnwys posteri, taflenni, rhaglenni cynyrchiadau, hysbysebion cyhoeddus, a.y.b.</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygu, diweddarau a rheoli gwefan y cwmni ynghyd â safleoedd a phlatfformau digidol ac e-farchnata a chyfryngau cymdeithasol y cwmni.</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sefydlu a datblygu partneriaethau gydag adolygwyr, newyddiadurwyr a chysylltiadau yn y wasg a'r cyfryngau yng Nghymru a thu hwnt er mwyn ehangu systemau cyfathrebu a chodi proffil y cwmni.</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bod yn ymwybodol o ddatblygiadau a thueddiadau marchnata a chyfathrebu cyfredol ym maes theatr a'r celfyddydau yn ehangach yng Nghymru, y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol.</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynnig syniadau a sefydlu ffyrdd arloesol o ddatblygu a denu cynulleidfaoedd newydd a chodi proffil y cwmni.</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cadw cofnod o niferoedd cynulleidfa ac ymwneud cyfryngau cymdeithasol, a dadansoddi data ar gyfer adroddiadau ystadegol.</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rheoli bas data'r cwmni</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rheoli cyllideb yr adran farchnata a chyfathrebu a pharatoi adroddiadau ariannol i'r Cyfarwyddwr Gweithredol.</li> </ul>

### **Datblygu Cynulleidfa**

Datblygu a gweithredu strategaeth ddatblygu cynulleidfa'r cwmni (mewn cydweithrediad â'r Cynhyrchydd Gweithredol)

- Datblygu cynulleidfaoedd newydd i waith y cwmni, gan gynnwys datblygu'r bas data cynulleidfa ac ymgyfranogwyr
- Datblygu partneriaethau gyda hyrwyddwyr lleol a chymunedol ar draws Cymru i hyrwyddo gwaith y cwmni a chynyddu ei broffil.
- Trefnu a rheoli digwyddiadau cyhoeddus yn ôl y galw.
- Codi proffil gwaith cyfranogol ac addysgol y cwmni mewn cydweithrediad a'r Cynhyrchydd Gweithredol

### **Codi Arian**

Cydweithio gyda'r Tîm Rheoli i sicrhau fod y cwmni yn manteisio ar y cyfleodd i greu incwm ychwanegol trwy gyhoeddiadau a nwyddau, adnoddau'r cwmni a cheisiadau am nawdd.

- Hyrwyddo adnoddau'r cwmni i bwrpas greu incwm ychwanegol.
- Datblygu cyfleodd i greu incwm ychwanegol, yn arbennig trwy gyfrwng cyhoeddiadau a nwyddau.
- Cynorthwyo'r Cyfarwyddwr Gweithredol i weithredu strategaeth nawdd y cwmni

### **Arall**

- Cyfrannu tuag at ddatblygiad a gweithrediad Cynllun Busnes y cwmni.
- Ymgymryd â dyletswyddau eraill rhesymol ar gais y Cyfarwyddwr Gweithredol (neu'r Cyfarwyddwr Artistig).

## Manyleb Person

	Hanfodol	Dymunol
<b>Cymwysterau a Hyfforddiant</b>		
Cymhwyster proffesiynol (gradd/diploma) ym maes marchnata		✓
<b>Profiad</b>		
Profiad o ddatblygu a gweithredu strategaeth farchnata	✓	
Profiad o reoli ymgyrchoedd marchnata a chyfathrebu	✓	
Profiad marchnata o fewn y byd celfyddydol		✓
Profiad o ddatblygu brand a delwedd		✓
Profiad o hyrwyddo cwmni a phrosiectau creadigol		✓
Profiad o reoli a gweithredu technoleg ddigidol a phlatfformau rhwydweithio cymdeithasol	✓	
Profiad o reoli staff		✓
<b>Gwybodaeth</b>		
Gwybodaeth helaeth am duddiadau marchnata a chyfathrebu ym maes theatr yng Nghymru, a thu hwnt.		✓
Gwybodaeth am ddefnydd ac arferion da mewn perthynas â chyfryngau cymdeithasol		✓
<b>Sgiliau</b>		
Y gallu i gyfathrebu a gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg – ar lafar ac yn ysgrifenedig – i safon uchel	✓	
Sgiliau technoleg gwybodaeth ragorol	✓	
Y gallu i feddwl am syniadau creadigol a dulliau arloesol o ymgysylltu gyda chynulleidfa	✓	
Y gallu i weithio fel aelod o dîm ac i weithio'n annibynnol	✓	
Y gallu i reoli cyllidebau yn effeithiol	✓	
Sgiliau trefnu a rheoli amser rhagorol	✓	
Trwydded yrru gyfredol	✓	